# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Rhagfyr 2il 2025 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Mynach

Presennol: Alwyn Jones (cadeirydd), Gwynedd Jones, Iolo Evans, Bethan Thomas, Rita Jones, Eilir Rowlands, Gary Thomas, Meilir Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau - Dewi Pritchard, Eifion Davies a Gwenda Evans

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Tachwedd 4ydd 2025) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Cronfa 'Gwynedd Ni' - gwelliannau i fynwent St. Mark, Frongoch. **Adroddodd y clerc fod y coed wedi cael eu torri i lawr a'r gwaith walio wedi gorffen. Mi fyddai gweddill o'r gwaith clirio yn cael ei gwblhau dros yr wythnos nesa. Cytunwyd hefyd i ddefnyddio arian tu cefn i dalu contractwr lleol i wneud gwaith clirio ychwanegol yn y flwyddyn newydd.**
c) Lloches bws newydd Llanfor – **roedd y clerc yn dal i aros i swyddog yr Adran Cefnffyrdd gysylltu'n ôl ynglyn â lle i osod y lloches newydd ond roedd wedi derbyn prisiau cyfredol ac wedi gwneud ymholiadau am ffynhonellau ariannol.**

## iv) Gohebiaeth
a) Amrywiol.
i) Cyfoeth Naturiol Cymru – Parc Cenedlaethol arfaethedig Glyndŵr. **Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i anfon sylwadau yn nodi gwrthwynebiad y Cyngor i'r cynllun.**
ii) Parc Cenedlaethol Eryri – diweddariad ar broses adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri.

## v) Ceisiadau Cynllunio.
PEDW - DNS/3276735 - Fferm Wynt Gaerwen - Hysbysiad o'r weithdrefn ddiweddaraf.

## vi) Materion Ariannol.
a) Adolygu cyflog a chostau'r clerc.
Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ddilyn graddfeydd cyflog a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru a chynyddu cyflog y clerc o fis Ebrill 2026.

b) Cyllideb a Praesept 2026/27.
**i) Cytunwyd i ychwanegu arian ar gyfer cyflog y clerc, ffioedd archwilio'r cyfrifon a tal aelodaeth yr ICO. Cytunwyd i leihau'r gwariant ar gyfer costau banc gan nad oedd HSBC yn codi'r £5 ffi misol rhagor. Amcangyfrif y bydd £1,750 o ad-daliad TAW a £100 o logau banc.**
**ii) Cytunwyd i gadw'r Praesept yn £15,000 ar gyfer 2026-27, gan barhau i glustnodi £2,000 ar gyfer gwaith trwsio wal mynwent Llanfor. Byddai hyn yn sicrhau fod digon o arian ar gael ar gyfer unrhyw wariant hanfodol, i gefnogi prosiectau lleol ac fel bod dros 3 mis o wariant gros y cyngor tu cefn.**

c) Pension Regulator.
Llythyr yn ein cynghori fod angen ail gadarnhau manylion y Cyngor, **gofynnwyd i'r Clerc wneud hyn.**

ch) Taliadau – **cytunwyd i dalu'r canlynol:**
i) Cyflog a chostau'r clerc (Hyd-Rhag)
ii) TWE
iii) Hannah Gwenllian Web Designs (Gwefan)
iv) ICO
v) John Emrys Davies (llwybr mynwent Frongoch)
vi) C.T.Roberts Plant Hire Ltd (torri coed mynwent Frongoch)
vii) Brian Evans & fab (walio ym mynwent Frongoch)
viii) Cyngor Gwynedd (bin gwastraff gardd mynwent Llandderfel)
ix) Gwasanaeth Coed Tom Edwards (gwaith clirio coed mynwent Frongoch)

d) Cyfraniadau Ariannol
i) Cafwyd ceisiadau gan Apêl Cronfa i Bawb yr Urdd 2025-26 ac Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn 2026.
**Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.**

vii) Materion lleol.
a) Cynllun Bioamrywiaeth 2025-28 – **cytunwyd i'w fabwysiadu.**
**b) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH CHWEFROR 3YDD YN NEUADD BRO DERFEL**